# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD IAU, 28 TACHWEDD 2013 am 2.00 o'r gloch | | THURSDAY, 28 NOVEMBER, 2013 at 2.00pm |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes (Cadeirydd/Chair), W T Hughes, Richard Owain Jones a
Dafydd Rhys Thomas

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Carwyn Jones, Alun W Mummery (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dylan Rees

**Heb Ymuno/Unaffiliated**

Raymond Jones
R.Ll. Jones

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y Rhaglen.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2013.

4 **DIWEDDARIAD GAN UNED PARTNERIAETH** (Tudalennau 7 - 10)

Cyflwyno adroddiad cynnydd gan yr Uwch Reolwr Partneriaethau.

5 **TROSOLWG BLYNYDDOL - PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL** (Tudalennau 11 - 18)

Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

6 **CYMUNEDAU'N GYNTAF YNYS MÔN** (Tudalennau 19 - 26)

Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

7 **DOGFEN YMGYNGHOROL AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 27 - 50)

Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

8 **DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD AC UNRHYW GYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu Is-Gadeirydd.

9 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 51 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, W T Hughes, Carwyn Jones, Richard Owain Jones a Dylan Rees |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Gwasanaeth (Datblygu Economaidd) (DW),<br>Swyddog Sgriwtini (GWR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Jeffrey M Evans, Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Gerallt Llewelyn Jones – Rheolwr-gyfarwyddwr Menter Môn. |

---

Mynegodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad gyda Mr Geraint Roberts (y Swyddog Sgriwtini) yn dilyn marwolaeth ei Ewythr yn ddiweddar.

Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i Mr Dylan Williams (Pennaeth Gwasanaeth – Datblygu Economaidd) ar ei briodas.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorwyr John Griffiths, W T Hughes ac R O Jones ddiddordeb oherwydd eu bod yn aelodau o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ac na fyddent yn mynegi barn ynglŷn â datblygiadau y cyfeirir atynt yn yr adroddiadau i’r Pwyllgor.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2013.

**MATERION YN CODI**

Nododd y Swyddog Sgriwtini y bydd cynrychiolwyr o Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn yn mynychu cyfarfod mis Tachwedd o’r Pwyllgor hwn i ymateb i faterion a godwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2013.

**4 DATBLYGU ECONOMAIDD AR YNYS MÔN: TROSOLWG, CYFLEON A HERIAU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y pennaeth Gwasanaeth (Datblygu Economaidd) mewn perthynas â’r uchod.

Cafwyd adroddiad bod Ynys Môn wedi dioddef economi yn edwino a phocedi o ddifreintio cymdeithasol-economaidd sylweddol. Rôl y Cyngor Sir, mewn partneriaeth gyda’r gymuned a chydranddeiliad allweddol yw sicrhau y gwneir y mwyaf o unrhyw gyfleon tebygol wrth ymateb mewn ffordd effeithiol i’r heriau hyn. Bydd amcanion y Cyngor yn cael eu darparu’n bennaf drwy’r Fframwaith Ynys Fenter, sef gweledigaeth yr Awdurdod o gael economi gref a bywiog i greu swyddi a ffyniant i drigolion a chymunedau lleol.

Sefydlwyd y Fframwaith Ynys Fenter i alluogi rhyngweithio, alinio a chydlyniad drwy dri maes rhaglen benodol: Rhaglen Ynys Ynni, Cynllun Rheoli Cyrchfan a'r Rhaglen Adfywio Ehangach. Wrth ddarparu'r Fframwaith Ynys fenter, mae i'r Uned Datblygu Economaidd rôl fel hwylusydd ac arweinydd i ddatblygu cyfleon trawsnewid, tra ar yr un pryd yn sicrhau bod trigolion yn cael eu cadw yn y pictiwr, yr ymgynghorir â hwy a'u bod yn cael cyfle i siapio dyfodol cymdeithasol ac economaidd yr Ynys lle bo hynny'n briodol. Mae'r berthynas hon yn allweddol er mwyn cynnal a chadw a datblygu enw da'r Cyngor Sir gyda datblygwyr tebygol a gyda chymunedau lleol.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth amlinelliad o'r gwaith adeiladu niwclear newydd tebygol yn Wylfa, Fferm Wynt Rhiannon yn y Môr a Phentref Hamdden Penrhos gyda'r potensial o greu 2,500 net o swyddi ychwanegol erbyn 2025, ynghyd â 6,000 o swyddi adeiladu a chyfraniad mawr i'r GVA. Gallai hyn gynrychioli cyfraniad o £2.34 biliwn i Ynys Môn ac i'r economi isranbarthol yn y cyfnod hyd at 2025. Bydd y prosiectau a fwriedir ar gyfer Ynys Môn a Gogledd Cymru yn rhai sylweddol o ganlyniad i'r cyfleon fydd yn gysylltiedig â'r Fframwaith Ynys Fenter, ynghyd â'r Rhaglen Ynys Ynni, statws Parth Menter, Rhaglenni Llywodraeth Cymru, ffrydiau cyllido Ewropeaidd yn awr ac i'r dyfodol a'r buddsoddiad sylweddol sy'n cael ei ragweld gan y sector preifat.

Dywedodd y Deilydd Portffolio a Datblygu Economaidd, y Cynghorydd Aled M Jones y byddai'r datblygiadau tebygol a sylweddol ar yr Ynys yn creu mewnfuddsoddiad anhygoel. Mae'r Uned Datblygu Economaidd yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd busnesau a thrigolion lleol yr Ynys yn elwa oddi wrth ddatblygiadau o'r fath.

Cyfeiriodd hefyd at y datganiad diweddar bod y tir sydd ym mherchnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn ger yr A55 yng Ngaerwen wedi ei ddewis fel y safle a ffefrir ar gyfer y Parc Gwyddoniaeth Menai newydd. Fe allai'r datblygiad fod yn brosiect newydd mawr i'r Ynys. Bydd Uned Datblygu Economaidd y Cyngor Sir felly yn parhau i weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a Llywodraeth Cymru i fynd a phethau ymlaen ymhellach gyda'r prosiect hwn. Y nod yw sicrhau y bydd Parc Gwyddoniaeth Menai yn ategu nod Llywodraeth Cymru o sefydlu'r Ynys fel canolfan ragoriaeth ar gyfer ynni carbon isel drwy statws Parth Menter a gweledigaeth Ynys Môn ei hun - Yr Ynys Ynni.

Rhai materion a leisiwyd gan Aelodau:-

- Holodd yr Aelodau a allai'r holl Ynys elwa oddi wrth y datblygiadau mawr tebygol hyn. Ymatebodd y Deilydd Portffolio y gallai'r Ynys gyfan elwa oddi wrth y mewnfuddsoddiad ac y mae disgwyl y bydd y cymunedau i gyd yn elwa oddi wrth y datblygiadau. Pwysleisiodd y dylai Aelodau edrych ar y prosiectau mawr hyn fel rhywbeth fyddai o fudd i'r ynys gyfan ac nid i un ochr arbennig o'r Ynys. Ategodd y Pennaeth Gwasanaeth y sylwadau a wnaed gan y Deilydd Portffolio gan bwysleisio y dylid edrych ar y prosiectau hyn fel rhywbeth fyddai o fudd i'r Ynys gyfan.

- Holodd yr Aelodau hefyd a oedd sgiliau'r bobl leol yn ddigonol i allu cystadlu am waith yn y datblygiadau mawr hyn ar yr Ynys. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth bod datblygu sgiliau wedi ei ymgorffori i mewn i'r trafodaethau gyda'r cwmnïau a bod buddsoddiadau mawr wedi eu gwneud ganddynt i greu cynlluniau prentisiaethau newydd. Dywedwyd ymhellach bod Swyddog wedi ei gyflogi ar ran y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru fel rhan o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i symud yr agenda sgiliau yn ei blaen. Awgrymwyd y dylid gwahodd y Swyddog i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol.

- Gofynnwyd cwestiynau am yr effaith bosibl a gaiff tyrbinau gwynt, peilonau ac adeiladu datblygiadau mawr ar yr Ynys ar Dwristiaeth. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth bod yn rhaid ystyried pob mater ar ei ragoriaethau ei hun. Pwysleisiwyd bod angen diogelu cyfleusterau economi ymwelwyr yr Ynys yn ystod cyfnodau adeiladu datblygiadau mawr.

Yn dilyn trafodaethau pellach **PENDERFYNWYD**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a chydnabod pwysigrwydd y cyfle trawsnewid economaidd dihafal oedd yn cael ei gyflwyno a rôl yr Uned Datblygu Economaidd a'r Cyngor Sir yn darparu gweledigaeth yr Ynys Fenter;**

- **Cydnabod rôl allweddol y Cyngor Sir a'r Uned Datblygu Economaidd yn sicrhau bod pobl leol, cymunedau a busnesau'n cymryd mantais lawn o'r cyfleon hyn i'r dyfodol;**

- **Cydnabod yr angen i ddiogelu adnoddau a chapasiti o fewn yr Uned Datblygu Economaidd i gefnogi'r gwaith o ddarparu gweledigaeth yr Ynys Fenter;**

- **Cydnabod yr angen bod angen adnoddau ariannol y Cyngor Sir fel arian cyfatebol i sicrhau adnoddau UE ac eraill i'r dyfodol i allu symud materion Ynys Fenter yn eu blaenau.**

- **I wahodd y Swyddog Datblygu Sgiliau, sy'n cael ei gyflogi ar ran y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru fel rhan o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i symud yr agenda sgiliau yn ei blaen.**

**5 MENTER MÔN**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr Gerallt Llewelyn Jones, Rheolwr-gyfarwyddwr Menter Môn i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor.

Amlinellodd Mr Jones gefndir y ddau gwmni Menter Môn ac Annog Cyf. Cyfeiriodd at gyfrifon y ddau gwmni yn 2012 yn dilyn eu harchwilio. Mae gan Menter Môn y dasg anodd o sicrhau ei fod yn gwasanaethu tri chydranddeiliad pwysig, y cymunedau y mae'n ei wasanaethu, (y rhai sy'n elwa o'i waith), buddsoddwyr sy'n buddsoddi yn ei waith a'r Cyfarwyddwyr sy'n dibynnu ar ei lywodraethu o ddydd i ddydd.

Mae model busnes 5 mlynedd y grŵp ar gyfer Cynllun Busnes 2010/2014 yn cynnwys y cydrannau canlynol:-

- Ymgeisio am a sicrhau gweithgaredd cyllid grant parhaol er mwyn cyflawni'r prif nod o ddatblygu economi'r Ynys, yn arbennig ei ardaloedd gwledig;
- Gweithredu busnesau menter gymdeithasol drwy Annog Cyf, sy'n creu swyddi, sydd o fudd i'r economi a pharatoi ar gyfer y dyfodol;
- Ymestyn y model busnes yn ddaearyddol i ardaloedd eraill o'r sir;
- Gwella adeiladau, asedau hylifol a chapasiti ennill Menter Môn;
- Datblygu eiddo a brynwyd fel y gall y grŵp a'r economi leol elwa o'u gweithrediad wedi hynny h.y. gwneud i asedau a brynwyd weithio er budd pawb.

Rhoddodd Mr Jones amlinelliad o'r gobeithion gyda Chynllun Busnes 2015/2020 Menter Môn a sut y gall y Cyngor Sir a Menter Môn weithio gyda'i gilydd i'r dyfodol, yn arbennig gyda Chynllun Datblygu Gwledig yr UE a Chronfeydd Strwythurol UE. Nododd bod y cwmni, ers ei ddechreuad wedi arallgyfeirio, wedi tyfu a sefydlu model busnes gyda'r nod o gryfhau ei sylfaen ymhellach ond y mae hefyd yn ddibynnol ar ei allu i sicrhau grantiau allanol. Cyfeiriodd hefyd at y grant arian cyfatebol a roddwyd i Menter Môn gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn oedd wedi lluosi i £2m yn y grant Cynllun Datblygu Gwledig i gymunedau gwledig.

Roedd y Cadeirydd o'r farn y dylai'r Pwyllgor hwn allu ymweld â rhai o'r cymunedau gwledig oedd wedi elwa o grantiau CDG i weld y gwahaniaeth y mae wedi ei wneud i'r cymunedau hyn.

Adroddwyd ar Gynllun Busnes 2015/2020 Menter Môn ac amlinellwyd sut y gall y Cyngor Sir a Menter Môn gydweithio a chydweithredu yn y dyfodol:-

- Cynllun Datblygu Gwledig UE – cyd-weithio agos gyda'r Cyngor Sir i sicrhau bod yr Ynys yn derbyn y manteision mwyaf posibl o'r rhaglen. Mae Menter Môn yn awyddus i sicrhau bod yr AERP a'r awdurdod yn cymryd rhan lawn yn y rhaglen LEADER.

- Cronfeydd Strwythurol UE - cydweithio ar bethau arloesol gyda'r Cyngor Sir i ganfod dulliau newydd o gael manteision i'r Ynys megis: -

- Sicrhau bod manteision cymunedol yn newid bywydau a gobeithion pobl yn ogystal â gwella isadeiledd;
- Cyllido a chynhyrchu datblygu economaidd yn seiliedig yn y gymuned yn deillio o ynni adnewyddadwy, defnyddio pwerau codi cyfalaf Awdurdod Lleol a thir ym mherchnogaeth yr Awdurdod Lleol;
- Trosglwyddo gwasanaethau anstatudol priodol i gwmni fel Menter Môn;
- Darparu tai fforddiadwy ar yr Ynys drwy haen arall o drosglwyddo asedau;
- Edrych i mewn i sefydlu Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol;
- Gweithio gyda Scottish Power ar ochr y galw i effeithlonrwydd ynni ac arbedion carbon;
- Cyfrannu at fanteision busnes y gadwyn gyflenwi yn y Rhaglen Ynys Ynni;
- Gwella'r cysylltiadau rhwng ymchwil ym Mhrifysgol Bangor a thwf busnesau sy'n cychwyn ar Ynys Môn;
- Sicrhau bod y gwelliannau mewn cyfathrebu digidol sydd i ddod ar yr Ynys yn cael eu matsio gyda buddsoddiad i sicrhau bod trigolion a busnesau'n gwneud y defnydd economaidd gorau ohonynt.

Dywedodd Mr Jones - drwy fod y Cyngor Sir yn gallu benthyca arian ar raddfa log sydd yn is fe alli felly helpu mudiad fel Menter Môn i symud prosiectau pwysig yn eu blaenau ar yr Ynys.

Dywedodd y Cadeirydd – drwy fod Menter Môn yn fudiad partner mor agos gyda'r Cyngor Sir, awgrymodd y dylai Mr Gerallt Ll Jones gael ei gyfethol i fod yn Aelod o'r Pwyllgor hwn.

Yn dilyn sesiwn o holi ac ateb **PENDERFYNWYD diolch i Mr Gerallt Ll Jones, Rheolwr-gyfarwyddwr Menter Môn am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth.**

**CAMAU GWEITHREDU :**

- **Rhoi cefnogaeth i Menter Môn ddechrau trafodaethau gyda'r Cyngor Sir a'r Uned Datblygu Economaidd i drafod cyllid posibl i brosiectau oedd wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad.**

- **Bod trefniadau'n cael eu gwneud i ymweld â phrosiectau a gwblhawyd yn y cymunedau lleol ac sydd wedi elwa o gyllid grant y Cynllun Datblygu Gwledig.**

- **Bod Mr Gerallt Ll Jones, Rheolwr-gyfarwyddwr Menter Môn yn cael ei apwyntio fel aelod wedi ei gyfethol o'r Pwyllgor hwn heb hawliau pleidleisio.**

**6 RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd - Rhaglen Waith drafft gan y Swyddog Sgriwtini.

Gofynnodd yr Aelodau am i gynrychiolwyr o'r mudiadau canlynol gael eu gwahodd i fynychu'r Pwyllgor hwn:-

Gwasanaeth Ambiwlans Cymru – Mawrth 2013
Mr Iwan Williams, Datblygu Sgiliau – Mawrth 2013

Gofynnodd yr Aelodau hefyd am i lythyr gael ei anfon i'r Asiantaeth Safonau Dreifio i ofyn pam eu bod yn cymryd mwy o amser i apwyntiadau prawf car / theori gael eu cynnal yn yr iaith Gymraeg.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**7 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD AC UNRHYW GYHOEDDIADAU**

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad manwl ar Gynhadledd yn Venue Cymru, Llandudno y bu ynddi ar 13 Medi, 2013.

Roedd y Seminar yn cynnwys Byrddau Gwasanaeth Lleol a Sgiliau Gwrando Actif o fewn Rhaglen Cefnogi Sgriwtini Cymru yn cael ei rhoi gan Ms Rebecca Knight. Dywedodd y Cadeirydd bod Ms Knight wedi cytuno i roi Seminar i'r Pwyllgorau Sgriwtini ar ddyddiad i'w drefnu.

**8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn yn cael ei gynnal ar 28 Tachwedd, 2013 am 2.00p.m.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.20p.m.

**CYNGHORYDD D R HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MON

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **28 Tachwedd 2013** |
| **Teitl:** | **Diweddariad ar faterion partneriaethol** |
| **Awdur:** | **Trystan Pritchard, Uwch Reolwr Partneriaethau** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Yn dilyn cyflwyniad i'r pwyllgor ar 25ain Gorffennaf 2013, fe geisiodd aelodau fwy o wybodaeth ynglŷn â strwythurau partneriaethau, trefniadau cyllidol a dyraniad grantiau. Mae'r adroddiad yn cynnig gwybodaeth bellach ar y materion hyn ac mae'n cynnig diweddariad ar y broses o ddatblygu Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Gwynedd a Môn.

## 2.0 Trefniadau Cyllidol

### 2.1 Cyllid Presennol yr Uned Partneriaeth

Yn ôl y cytundeb partneriaethol rhwng y ddwy sir, dyrannir costau ar sail canran o 47% i Fôn a 53% i Wynedd.

**Cyllid Staff Uned Partneriaethau:**

Cyfanswm: £732,585

Cyllid staff craidd: £475,278

Cyllid Staff Grant: £257,307

Cyfraniad Môn i'r gyllideb staff craidd ar 47%: £223,380

**Cyllid heb fod yn staff:**

Cyfanswm cyllid heb fod yn staff: £53,175

Cyfraniad Môn ar 47%: £25,000

**Cyfanswm grantiau a dderbyniwyd yn bresennol: £ 1,575,485.72**

## 2.2 Dyraniad yn ôl maes arbenigol

## Plant a Phobl Ifanc

Cyllid Staff Grant (2 sir): £27,626

Cyllid grant heb fod yn staff (Grant Teuluoedd yn Gyntaf): £840,236

## Diogelwch Cymunedol

Cyllid staff grant (2 sir): £143,753

Cyllid grant Môn: £725, 249.72

Dyraniad yn ôl maes:

**Camddefnyddio Sylweddau** (Môn); **£527,943.00** Grant i gael ei ddyrannu fel adnodd rhanbarthol o 2014/15 ymlaen

**Grant Comisiynydd yr Heddlu** (Môn): **£27,173.00**

**Lleihau Trosedd Ieuenctid, Llywodraeth Cymru: £132,633.72**
Grant i gael ei ddyrannu fel adnodd rhanbarthol o 2014/15 ymlaen

**Trais yn y Cartref, Llywodraeth Cymru** (Môn): **£37,500**


## Iechyd, Gofal a Lles

Grant staff Staff (2 sir): £61,156

Grant heb fod yn staff: £10,000 – Iechyd Cyhoeddus Cymru

## 3.0 Strwythur Adrodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol

3.1 Mae'r diagram isod yn amlinellu rôl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r trefniadau adrodd:



Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd
Joint Local Services Board
Cyfeiriad Strategol / Strategic Direction
- Cytuno Asesiad Anghenion / Agreeing Needs Assessment
- Gosod Canlyniadau / Setting Results
- Adnabod Blaenoriaethau Cyffredin a Lleol / Identify Common and Local Area Priorities
Bwrdd Gwireddu
Delivery Board
Gweithrediad Effeithiol / Effective Implementation
- Cyflawni Asesiad Anghenion / Undertaking the Needs Assessment
- Argymell Blaenoriaethau / Recommend Priorities
- Rheolaeth y Model / Managing the Model
- Penderfyniadau Gwireddu Angenrheidiol / Necessary Implementation Decisions
- Rhai Cyfrifoldebau Grant / Some Grant Responsibilities
- Datrys Problemau / Problem Solving
Grwpiau Cyflawni / Delivery Groups
Grwpiau Thematig
Thematic Groups
Grwpiau Prosiect
Project Groups
Cyfrifoldeb Corff Penodol
Responsibility of Specific Body
Cyflawni Canlyniadau / Achieving Results
- Rhaglen Waith / Work Programme
Datblygu / Develop
Gweithredu / Implement
Adrodd yn ôl / Report Back
Ymgysylltiad / Engagement
- Rheoli Perfformiad / Performance Management
Trefniadau Cynghorau Unigol i'w Cadarnhau
Individual Council Arrangements to be Confirmed
Atebolrwydd / Accountability
- Craffu / Scrutiny
- Rheoleiddio / Regulation
- Cymunedau, Sirol a Lleol / Communities, County and Local

## 4.0 Datblygu Cynllun Integredig Sengl

4.1 Mae drafft cychwynnol o'r cynllun wedi ei gwblhau erbyn hyn ar ôl ymgysylltu ag adrannau cyngor, sefydliadau partner a'r trydydd sector. Mae'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer iechyd , tlodi a'r iaith Gymraeg wedi eu cytuno gyda'r angen am waith pellach i fireinio'r blaenoriaethau yn y meysydd datblygu economaidd a phlant a phobl ifanc.

4.2 Mae'r rhaglen Ynys Ynni yn ystyriaeth graidd ac mae trafodaethau ar y gweill i sicrhau bod y cynllun yn darparu cyfeiriad strategol i sicrhau bod y manteision cymdeithasol , economaidd ac amgylcheddol yn cael eu huchafu gan sicrhau datblygu cynaliadwy a gwydnwch cymunedol .

4.3 Bydd ymgysylltu pellach â chynrychiolwyr cymunedau drwy brosiect Lleisiau Lleol yn mynd rhagddo gyda gweithdai wedi eu trefnu ar gyfer 12 Rhagfyr .

4.4 Yn dilyn yr ymarfer hwn, bydd fersiwn wedi ei mireinio yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Adfywio Partneriaeth ar gyfer ei drafod. Bydd gofyn i'r Cadeirydd gynghori ynghylch fformat a dyddiad posibl ar gyfer y drafodaeth .

## 5.0 Argymhellion

5.1 Gofynnir i'r pwyllgor :

(i ) Nodi cynnwys yr adroddiad

(ii ) Gynnig barn ar y trefniadau gorau ar gyfer trafod a chymeradwyo'r Cynllun Integredig Sengl

**Adroddiad gan: Trystan Pritchard**
**Teitl Swydd : Uwch Rheolwr Partneriaethau ( Ynys Môn a Gwynedd)**
**Dyddiad : 11/11/13**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR CRAFFU TROSEDD AC ANHREFN AWDURDOD LLEOL YNYS MÔN** |
| **DATE:** | **28 TACHWEDD 2013** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CATHERINE E ROBERTS** |
| **PWNC:** | **DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL** |

**1.00 PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.01 Darparu trosolwg i'r Aelodau o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd (PDC) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**2.00 CEFNDIR**

2.01 Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn pob blwyddyn i gyflwyno trosolwg o'r gweithgareddau yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006. Daeth y ddeddfwriaeth i rym yng Nghymru ar 1 Hydref 2009 drwy Reoliadau Trosedd ac Anrhefn (Trosolwg a Chraffu) 2009.
Dyletswydd y pwyllgor yw craffu gwaith y Bartneriaeth, yn hytrach na gwaith yr aelodau unigol.

2.02 Mae'n ddyletswydd statudol ar **Awdurdodau Lleol** yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgil Deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol yn 2002 a 2006 i weithio mewn partneriaeth gyda'r **Heddlu, y gwasanaeth Iechyd, y gwasanaeth Prawf a'r gwasanaeth Tân ac Achub** i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Dyma'r asiantaethau sy'n ffurfio'r Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae gan y bartneriaeth ddyletswydd i ymdrin â:

- Throsedd ac Anhrefn
- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau aildroseddu
- Cyflawni asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith a gynhelir ar sail ranbarthol bellach)
- Rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail ranbarthol a lleol – atodiad un)

2.03 Mae partneriaethau wedi bodoli yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd ers 1999. I gefnogi'r gwaith, gwasanaethir y Bartneriaeth gan dîm craidd o swyddogion awdurdod lleol a’r Heddlu. Mae capasiti’r timau cefnogol hyn, o fewn yr Awdurdodau Lleol ac o fewn yr Heddlu wedi gostwng, ac maent bellach yn gweithio ar sail dwy Sir.

## 3.00 AILSTRWYTHURO’R BARTNERIAETH

3.01 Ers 2012/13, mae Ynys Môn a Gwynedd wedi ymgymryd â phroses i resymoli partneriaethau. Y prif newid yw uno’r ddwy Sir yn un strwythur Partneriaeth. Unwyd y Byrddau Gwasanaeth Lleol (BGLl) yn Fwrdd dwy Sir yn ogystal, a hwn oedd y Bartneriaeth Diogelch Cymunedol (PDC) statudol. Fodd bynnag, ers hyn, gwyrdrowyd y penderfyniad hwnnw ac fe ailsefydlwyd y PDC fel grŵp statudol yn gorwedd dan y BGLl.

3.02 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd da yn y modd y mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gogledd Cymru yn gweithio gyda’i gilydd. Sefydlu Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2012 oedd y datblygiad mwyaf arwyddocaol yn rhanbarthol. Mae’r Bwrdd hwn yn cynrychioli partneriaeth rhwng yr holl awdurdodau statudol yn y rhanbarth (yn unol â diffiniad Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998), ynghyd â’r sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu. Nod gyffredinol y Bwrdd yw cyflwyno gwell cysondeb i’r maes gwaith hwn, a chreu cyfleoedd i rannu arbenigedd a gweithio’n fwy effeithiol ac effeithlon.

3.03 Yn ogystal, mae’r flwyddyn hon wedi bod yn flwyddyn drawsnewidiol i’r agenda Camddefnyddio Sylweddau. Ar ôl datblygu Byrddau Cynllunio Ardal (BCA) yng ngogledd Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, rydym nawr yn gweithio i drawsnewid y strwythurau presennol i weddu i’r hyn fydd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Dyma’r prif newidiadau -

- Datblygu Bwrdd rhanbarthol, y bydd gofyn iddo weithredu swyddogaeth statudol Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ar lefel ranbarthol, mae’r BCA wedi’i sefydlu eisoes (gall hyn olygu na fydd angen timau SMAT (Timau Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau) yn y dyfodol).
- Datblygu strategaeth comisiynu camddefnyddio sylweddau ranbarthol, mae’r gwaith hwn ar y gweill.
- Trawsnewid y gronfa camddefnyddio sylweddau yn grant rhanbarthol o fis Ebrill eleni, yn hytrach na grant Sirol. Mae grant gogledd Cymru wedi cynyddu eleni yn dilyn newid i’r fformiwla ariannu.
- Gofyn i gael banciwr / llywyddwr i’r grant yn rhanbarthol. Awdurdod Lleol Wrecsam yw’r banciwr yng ngogledd Cymru. Bydd yr awdurdod yn derbyn y grant o fis Ebrill flwyddyn nesaf ac yn dal yr holl gontractau gyda darparwyr y rhanbarth.

- Ad-drefnu'r adnoddau presennol (a ariennir gan y grant) sy'n cefnogi'r strwythurau presennol, i alluogi cefnogi'r strwythurau rhanbarthol newydd. Nid oes cytundeb ar y strwythur newydd eto, fodd bynnag, derbynnir y bydd llai o gydlynwyr yn y dyfodol ac ni fyddant yn gweithio ar sail leol.

## 4.00 YSTYRIAETHAU

4.01 Mae'n amlwg fod gweithio mewn partneriaeth yn gwella sut mae asiantaethau yn ymdrin â throsedd ac anrhefn. Roedd cyfraddau'r troseddau a gofnodir yn parhau i ostwng. Ceir isod grynodeb o rai o'r prif ddarganfyddiadau:

**Mae llai o droseddau yn cael eu cofnodi yn Ynys Môn a Gwynedd nawr nag oedd yna bedair blynedd yn ôl?**
Wrth gymharu'r chwe mis rhwng mis Ebrill a mis Medi yn 2010/11 hyd 2013/14;

**Yn Ynys Môn, cofnodwyd 434 yn llai o droseddau, gostyngiad o 23%.**

Yn y chwe mis diwethaf, mae'r hyn a ganlyn wedi cyfrannu at hyn:

- 77 yn llai o droseddau treisgar, gostyngiad o 38%.
- 24 yn llai o fyrgleriaeth ddomestig, gostyngiad o 38%.
- 64 yn llai o fyrgleriaeth nad ydynt yn ddomestig, gostyngiad o 47%.
- 124 yn llai o ddigwyddiadau o ddifrod troseddol a chynnau tân, gostyngiad o 29%.
- 82 yn llai o ddigwyddiadau o anrhefn cyhoeddus, gostyngiad o 53%.

**Yng Ngwynedd, cofnodwyd 469 yn llai o droseddau, gostyngiad o 13%.**

Yn y chwe mis diwethaf, mae'r hyn a ganlyn wedi cyfrannu at hyn:

- 26 yn llai o droseddau treisgar, gostyngiad o 7%.
- 10 yn llai o fyrgleriaeth nad ydynt yn ddomestig, gostyngiad o 4%.
- 234 yn llai o ddigwyddiadau o ddifrod troseddol a chynnau tân, gostyngiad o 28%.
- 55 yn llai o droseddau cerbyd, gostyngiad o 24%.
- 134 yn llai o ddigwyddiadau o anrhefn cyhoeddus, gostyngiad o 48%.

4.02 Mae Cynllun Strategol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol bellach yn gynllun rhanbarthol, mae cynllun cyntaf gogledd Cymru ar ffurf drafft ar hyn o bryd – ceir amlinelliad o'r meysydd blaenoriaeth yn y tabl isod.

4.03 Blaenoriaethau Asesiad Strategol Gogledd Cymru -

- Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol
- Byrgleriaeth o Dŷ
- Cam-drin Domestig
- Trais sy'n gysylltiedig ag alcohol – gydag anafiadau
- Grwpiau trosedd wedi'i drefnu yn achosi'r niwed mwyaf

Cytunwyd bod y rhain a ganlyn hefyd yn arwyddocaol ac angen sylw -

- Dwyn o siopau
- Dwyn o gerbydau modur

4.05 Meysydd blaenoriaeth cynllun gogledd Cymru -

| Blaenoriaeth | Deilliannau | Dangosyddion Perfformiad |
|---|---|---|
| Cam-drin Domestig a Throseddau Rhywiol | Magu hyder i adrodd am droseddau rhywiol difrifol | ▪ Mynediad i Wasanaethau Canolfan Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)<br>▪ Llai o amser o'r dechrau i'r diwedd<br>▪ Deilliannau cyfiawnder troseddol cadarnhaol |
| | Magu hyder i adrodd am ddigwyddiadau cam-drin domestig | ▪ Llai o amser o'r dechrau i'r diwedd<br>▪ Deilliannau cyfiawnder troseddol cadarnhaol |
| | Lleihau'r risg o fod yn ddioddefwr cam-drin domestig dro ar ôl tro | ▪ Lleihau nifer y bobl sy'n dioddef dro ar ôl tro |
| Trais sy'n gysylltiedig ag alcohol – gydag anafiadau | Lleihau'r risg o fod yn ddioddefwr troseddau treisgar sy'n peri anafiadau | Lleihau nifer y bobl sy'n dioddef dro ar ôl tro. Gweler dangosyddion trosedd domestig. |
| Trosedd Gaffaelgar | Datblygu ymatebion effeithiol i broblemau trosedd gaffaelgar a gaiff eu hadnabod yn lleol | Gostyngiad yn y nifer o droseddau |
| | Rhoi sylw ar y cyd i'r rhai hynny sy'n peri'r niwed mwyaf yn ein cymunedau | Gostyngiad yn y gyfran o droseddau a berir gan aildroseddwyr |

| | | |
|---|---|---|
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | Lleihau'r risg o fod yn ddioddefwr ymddygiad gwrthgymdeithasol | Nifer y bobl sy'n dioddef dro ar ôl tro o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Personol |
| Camddefnyddio Sylweddau | Gwella argaeledd ac ansawdd addysg, ataliad a gwasanaethau triniaeth a chymorth perthnasol, gan roi mwy o flaenoriaeth i'r rhai sy'n gysylltiedig ag alcohol | ▪ Cyflawni amser aros sy'n llai nag 20 diwrnod o'r dyddiad cyfeirio am driniaeth (KPI 2)<br>▪ Nifer yr oedolion sy'n cwblhau triniaeth ar gyfer gwasanaethau triniaeth alcohol (KPI 6)<br>▪ Nifer yr ysgolion cynradd nad ydynt wedi derbyn y rhaglen addysgol "Paid Cyffwrdd Dweud".<br>▪ Nifer y lleoliadau triniaeth alcohol sylfaenol i oedolion. |

5.00 **<u>GWEITHGAREDDAU 2013/13</u>**

Yn ystod y deunaw mis diwethaf, mae'r Bartneriaeth wedi bod yn destun ailstrwythuro sylweddol iawn, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae'r holl arian grant a dderbynnir gan y PDC wedi cael eu newid. Mae'r adnoddau cefnogol wedi'u cwtogi ac mae rhai prosesau ailstrwythuro rhanbarthol heb eu gorffen. Fodd bynnag, mae'r PDC wedi ymrwymo i ymgymryd â'r gweithgarwch mwyaf effeithiol a hylaw i gyflawni ei ymrwymiadau statudol. Ceir isod restr o'r prif weithgareddau.

5.01 <u>Gweithgareddau a Chynnydd Rhanbarthol</u>

Mae Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru bellach wedi'i sefydlu, mae rheolwyr PDC, Aelodau lleol a Chyfarwyddwyr Awdurdodau Lleol yn cynrychioli'r Awdurdodau Lleol ar y Bwrdd, ac maent wedi cytuno ar yr hyn a ganlyn -

i. Cymeradwyo Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn Gogledd Cymru ar gyfer 2013.
ii. Cytuno a chymeradwyo llunio Cynllun Strategol Diogelwch Cymunedol rhanbarthol, fersiwn drafft wedi'i amgáu.
iii. Trosolwg strategol o'r Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau.
iv. Ymateb cydlynol i Gynllun 10,000 o Fywydau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru – sy'n ymwneud â cham-drin domestig.
v. Cysondeb yr agwedd tuag at grantiau a gaiff eu comisiynu'n rhanbarthol, sef y Gronfa Atal Troseddu Ymysg Pobl Ifanc a Chronfa'r Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau –

mae'r ddau ohonynt bellach yn grantiau rhanbarthol.

vi. Aelodaeth a chyfraniad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd sy'n galluogi'r berthynas ofynnol rhwng PDC a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

vii. Argymell Fframwaith Comisiynu i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

*Mae'r holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau, neu'n mynd yn eu blaenau fel y dylent.*

5.02 <u>Gweithgareddau a Chynnydd Lleol</u>

Ar sail leol, dyma rai o'r prif gerrig milltir:

i. Wedi ailstrwythuro strwythurau cefnogol y PDC, gan newid i strwythur dwy Sir.

ii. Arwain ar ddatblygu Cynllun Diogelwch Cymunedol a chynllun gweithredu lleol.

iii. Adolygu holl is-grwpiau blaenorol y PDC er mwyn asesu a yw ein hadnoddau llai yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol.

iv. Cydlynu'r ymateb rhanbarthol i'r Cynllun 10,000 o Fywydau Mwy Diogel – sy'n ymwneud â datblygiadau cam-drin domestig.

v. Ennill cymeradwyaeth ffurfiol i ariannu'r grantiau a ganlyn: Arian Cronfa Diogelwch Cymunedol, Cronfa Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau, Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig a'r Gronfa Cymunedau Diogel ar gyfer 2013/14 a pharatoi ar gyfer y strwythur grantiau rhanbarthol newydd.

vi. Gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Diogelu Plant, i lansio'r arweiniad ymarferol a hefyd o ran yr Adolygiad Lladdiad Domestig yng Ngwynedd (y cyntaf yng Nghymru).

vii. Sefydlu grŵp dwy Sir i sicrhau cynnydd yn swyddogaeth y Cynllun Rheoli Troseddwyr yn Integredig.

viii. Parhau i gyflenwi hyfforddiant i grwpiau aml-asiantaethol a defnyddio teclyn CAADA (achrediad cenedlaethol), '*Domestic Abuse Stalking and Harassment Risk Assessment'* i Gam-drin Domestig.

ix. Comisiynu cynlluniau 'adfer' penodol ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn Ynys Môn a Gwynedd (ar y blaen o ran datblygiadau o'r fath yng ngogledd Cymru).

x. Cefnogi grŵp cefnogi defnyddwyr camddefnyddio sylweddau lleol yn Ynys Môn a Gwynedd (AGRO).

xi. Cyfrannu i gynllun dwy Sir newydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

xii. Ymgyrch codi ymwybyddiaeth i dargedu pobl hŷn sy'n camddefnyddio alcohol yn Ynys Môn a Gwynedd.

xiii. Cymryd rhan yn adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaethau cam-drin domestig Cymru.

xiv. Ymgymryd ag adolygiad Lladdiad Domestig (ddim wedi'i gwblhau eto) wedi i hyn ddod yn gyfrifoldeb i'r PDC yn 2011 (y cyntaf yng Nghymru).

xv. Symud i ddull gweithio ‘rheoli systemau proses’ wrth fonitro meysydd blaenoriaeth i Bartneriaethau weithredu mewn modd strategol.
xvi. Wedi rhoi polisi cam-drin domestig ar waith yn y gweithle yn Awdurdod Lleol Ynys Môn.
xvii. Wedi adolygu’r cynlluniau a ariennir gan Gronfa Comisiynydd yr Heddlu (cyn eleni, roeddem yn derbyn yr arian gan y Swyddfa Gartref), sydd wedi galluogi cynyddu’r arian i gomisiynu Cynghorwyr Cam-drin Domestig Annibynnol (IDVA) yn Ynys Môn.

*Mae’r holl gamau gweithredu wedi’u cwblhau, neu’n mynd yn eu blaenau fel y dylent.*

5.03 <u>Prif Gerrig Milltir yn y Flwyddyn i Ddod</u>

i. Cwblhau’r adolygiad o is-grwpiau, er mwyn i’r PDC fod mor effeithiol a grymus â phosib i’r dyfodol.
ii. Parhau â’r gefnogaeth a’r mewnbwn i waith Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru.
iii. Parhau â’r gefnogaeth a’r mewnbwn i Gynllun Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru.
iv. Gweithio’n effeithiol o fewn y strwythurau rhanbarthol newydd, i ddiogelu angen lleol pan fo angen ac i adnabod cyfleoedd ar sail ranbarthol pan fo hynny’n briodol.
v. Hwyluso’r adolygiad tair blynedd nesaf o strwythurau’r MARAC (Cynhadledd asesu risg aml-asiantaethol, i ddioddefwyr) cam-drin domestig lleol yn y ddwy Sir ac ymateb iddo.
vi. Gweithredu’r rhaglen waith ranbarthol i gynlluniau 10,000 o Fywydau Mwy Diogel.
vii. Gweithio gyda’r broses o ailstrwythuro’r Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau ein bod yn medru diwallu anghenion yn rhanbarthol ac yn lleol o fewn y strwythur cefnogi newydd, gan reoli’r newidiadau i swyddi presennol yn effeithiol.
viii. Adolygu’r cysylltiadau gyda’r gwasanaethau Trwyddedu a Safonau Masnach i sicrhau bod prosesau effeithiol yn eu lle ar gyfer prawf prynu ac ati.
ix. Ymateb i ddeilliant adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru.
x. Gweithio gyda’r Adran Tai yn Ynys Môn i adolygu adnoddau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i’r dyfodol.
xi. Cyfrannu i gynllun Integredig y BGLl, a chyflwyno adroddiadau diweddaru yn ôl y gofyn.
xii. Datblygu cynllun gwariant rhanbarthol i’r Gronfa Atal Trosedd Ymysg Pobl Ifanc, fydd hefyd yn cael ei fancio’n rhanbarthol erbyn mis Ebrill nesaf.
xiii. Cyfrannu at Grŵp Rheoli Troseddwyr yn Integredig Gogledd Cymru

## 6.00 ARGYMHELLION

6.01 Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **DYDDIAD:** | 28 Tachwedd 2013 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Adroddiad Gwaith – Cymunedau'n Gyntaf ym Môn |
| **AWDUR:** | Shan Lloyd Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | Y Cynghorydd Kenneth P Hughes |
| **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL:** | Gwen Carrington, Cyfarwyddwr Cymuned |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed gyda gweithredu'r Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn Ynys Môn. |

**Cefndir**

Cyflwynwyd Cymunedau'n Gyntaf [C1] yng Nghymru yn 2001 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru(LIC) fel rhaglen flaengar i wella'r amodau byw a'r rhagolygon i drigolion y cymunedau mwyaf difreintriedig ar draws Cymru. Yn dilyn dau adolygiad o'r rhaglen, cyflwynodd Llywodraeth Cymru (LIC) newidiadau i strwythur y rhaglen C1 ac ym mis Chwefror 2013 daeth Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf Môn yn weithredol.

Yr Awdurdod yw'r Corff Cyflawni Arweiniol ar gyfer £1.368m o gyllid. Y Corff Cyflawni yw Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf., sef cwmni a gyfyngir â gwarant ac elusen gofrestredig. Fel y Corff Cyflawni Arweiniol(CCA), yr Awdurdod sy'n gyfrifol am 'sicrhau llywodraethu ac atebolrwydd da yng ngweithgareddau'r clwstwr'. Cynhaliwyd ymweliad Diwydrwydd Dyladwy ym mis Gorffennaf 2012 i sicrhau bod gan yr Awdurdod y systemau a'r arbenigedd i redeg y rhaglen a chynhaliwyd ymweliad dilyn-i-fyny wedyn ar 4 Mehefin 2013. Cafwyd canlyniad llwyddiannus i'r ddau ymweliad. Mae Cytundeb Cyfreithiol rhwng yr Awdurdod a Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf., ar gyfer cyflawni'r Rhaglen.

Mae'r rhaglen yn rhedeg o 1 Chwefror 2013 i 31 Mawrth 2015 ac mae iddi ffocws daearyddol, gan ganolbwyntio ar y 10% o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ar yr Ynys. Mae'r ardal dan sylw yn cynnwys 7 o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is [LSOA], sef Morawelon, Porthyfelin 1, Tref Caergybi, Maeshyfryd, Ffordd Llundain a Kingsland yng Nghaergybi yn ogystal â Ward Tudur yn Llangefni. Mae pedwar o'r rhain ymysg y 10% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn ôl un neu ragor o fynegeion amddifadedd lluosog Cymru ac mae pob un ohonynt ymysg y 20% o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn gyffredinol.

Mae'r Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf ym Môn yn canolbwyntio ar dri maes canlyniad. Y rhain yw:

- Cymunedau ffyniannus
- Cymunedau dysgu
- Cymunedau iachach

Rydym wedi datblygu Fframwaith Canlyniadau i fonitro'r cynnydd a wneir o ran cyflawni'r Rhaglen newydd, gan ddefnyddio methodoleg atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Sefydlwyd Cynllun Ymgysylltiad Cymunedol hefyd er mwyn sicrhau cyfranogiad y gymuned.

Mae Cymunedau'n Gyntaf o fewn yr Adain Dai yn yr Adran Cymunedau ac mae'r gwaith o gyflawni'r rhaglen yn cael ei reoli gan y Pennaeth Tai. Mae'r Pennaeth Tai yn cael cymorth gan Swyddog Cyllid a Monitro yn yr Adran Gyllid sy'n gwneud y gwaith monitro ariannol a monitro allbynnau ac sy'n ymweld â'r ardaloedd ddwywaith y flwyddyn ac yn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd ar gyfer unrhyw welliannau.

**Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf – y cynnydd a wnaed.**

Ar 1 Chwefror, trosglwyddwyd 25 o staff o'r hen Bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf i Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf., dan y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth). Bu ailstrwythuro yn dilyn cyfnod o ymgynghori. Cynigiwyd diswyddiad gwirfoddol i staff a manteisiodd nifer ohonynt ar y cyfle hwnnw, gan olygu na fu'n rhaid diswyddo neb yn orfodol. Mae 17 o staff yn cael eu cyflogi bellach trwy Cymunedau'n Gyntaf. LIC dalodd am gostau'r taliadau diswyddo. Mae'r strwythur staffio yn cynnwys y swyddi isod:

- Rheolydd Clwstwr
- Cydgysylltydd Cymunedau Ffyniannus
- Cydgysylltydd Cymunedau Dysgu
- Swyddog Menter
- Swyddog Cynhwysiad Ariannol
- 3 o Weithwyr Ieuenctid (1 Amser Llawn, 2 Rhan Amser )
- Rheolydd Academi Ddysgu
- 3 o Weithwyr Academi Ddysgu
- Swyddog Cymorth Dysgu
- Swyddog Cyllid a Monitro
- 3 Swyddog Gweinyddol (1 ALl, 2 RhA)

Rheolir Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf. gan Fwrdd Cyfarwyddwyr sydd hefyd yn cynnwys yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddogion fel sylwedyddion. Cynhaliodd y Cwmni ei gyfarfod blynyddol cyffredinol cyntaf ar 26 Tachwedd 2013. Ymddiswyddodd holl Aelodau'r Bwrdd gyda golwg ar ethol Bwrdd newydd o blith y gynrychiolaeth.

Fel cwmni sydd wedi ei gyfyngu â gwarant ac elusen, mae'r sefydliad yn medru sicrhau cyllid allanol ychwanegol i gynorthwyo gyda darparu gwasanaethau Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardal. Mae hwn yn gyllid na fyddai'r Awdurdod fel corff cyhoeddus wedi bod yn gymwys i wneud cais amdano o bosib.

Yn dilyn cyfarfod gydag LIC ym mis Awst 2013, defnyddiwyd Cymunedau'n Gyntaf Môn fel yr unig Glwstwr yng Ngogledd Cymru i redeg cynllun peilot ar gyfer Aelwydydd heb Waith. Bydd y cynllun yn darparu £228,000 i dargedu a gweithio gydag aelwydydd lle mae oedolion wedi bod allan o waith am 6 mis neu fwy gyda golwg ar eu cael yn ôl i waith, profiad gwaith neu hyfforddiant. Mae dwy swydd newydd wedi eu hysbysebu'n ddiweddar mewn perthynas â'r rhaglen hon. Mae'r Cynllun Aelwydydd heb Waith yn un o'r mecanweithiau cyflawni ar gyfer 'Creu Cymunedau Cryf', sef cynllun LIC ar gyfer mynd i'r afael â thlodi. Mae'n debygol y bydd y rhaglen yn cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd ac yn rhedeg tan fis Mawrth 2015.

Bydd yr ardal Cymunedau'n Gyntaf hefyd yn elwa o hyd at £190,000 ar ôl i Cymunedau'n Gyntaf Môn gael ei ddewis gan y Loteri Iechyd - un o dri sefydliad yn unig a ddewiswyd ar draws Powys, Sir y Fflint, Wrecsam, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych ac Ynys Môn. Cynhelir cyfnod o ymgynghori yn awr gyda chymunedau i sefydlu'r cynllun gweithredu a fydd yn seiliedig ar anghenion a dyheadau'r cymunedau ar gyfer y meysydd iechyd a lles.

Cymeradwywyd cais cam cyntaf ar gyfer Grant Amddifadedd Disgyblion Cymunedau'n Gyntaf. Cyflwynir cais llawn am £60,000 erbyn 6 Rhagfyr. Bydd yn targedu disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ac yn cyfrannu at godi safonau rhifedd a llythrennedd.

Cafwyd £10,000 gan Plant Mewn Angen i redeg Clwb Ôl-ysgol Hwyl 3:30 a fydd yn cynorthwyo plant gyda gwaith cartref ac yn darparu ystod o weithgareddau ar eu cyfer.

Cafwyd cyllid Diogelwch Cymunedol o £15,000 ar gyfer gweithgareddau i blant yn eu harddegau dros fisoedd yr haf.

Cafwyd £5,100 hefyd ar gyfer Dyddiau Glanhau Cymunedol a bydd cyfran sylweddol o'r cyllid hwn yn cael ei dargedu ar gyfer Llangefni.

Mae Cymunedau'n Gyntaf Môn yn bartner allweddol yn y cais am arian o'r Gronfa Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Mae manylion am yr allbynnau a'r gwariant i'w gweld yn Atodiadau 1 a 2.

**Bwrdd Ymgynghorol Cymunedau'n Gyntaf Môn**

Ym mis Mai 2013, sefydlodd yr Awdurdod Fwrdd Ymgynghorol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdod a sefydliadau eraill. Cylch Gorchwyl y Grŵp yw hwyluso perthynas weithio agos rhwng Cymunedau'n Gyntaf Môn. Cyf., a darparwyr gwasanaeth allweddol. Pwrpas y Grŵp Ymgynghorol yw:

1. Darparu cyfleon i roi cymorth, datrys problemau, rhannu arferion da a gwybodaeth ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf Môn gyda phartneriaid, gan gymryd ystyriaeth lawn o anghenion cymunedau a theuluoedd lleol.

2. Gweithredu fel cyswllt rhwng y Bwrdd Gwasanaeth Lleol a'r Cynllun Integredig Sengl a dogfennau a rhaglenni strategol allweddol eraill.

3. Sicrhau bod rhaglenni lleol yn cydblethu, fel y Rhaglenni Cymunedau'n Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf a'r gweithgareddau ar raglenni eraill, ynghyd â nodi cyfleon ar gyfer comisiynu ar y cyd, gwneud ceisiadau am arian a phlygu rhaglenni.

4. Gweithredu fel fforwm trafodaeth, adolygu a datblygu cynllun cyflawni blynyddol Cymunedau'n Gyntaf Môn a dylanwadu ar y Bwrdd Gwasanaeth Lleol a phartneriaid eraill i fabwysiadu cynigion y sefydliad.

**Argymhelion**

Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Adfywio a Phartneriaethau:

Nodi cynnwys yr adroddiad.

Awdur yr Adroddiad: Shan L. Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai
Dyddiad yr Adroddiad: 15 Tachwedd 2013.

**Canlyniadau Cymunedau'n Gyntaf**

Gellir trefnu i'r holl ddangosyddion a chanlyniadau y mae'n rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru amdanynt trwy Ffynnon fod ar gael i aelodau ar gais. Fodd bynnag, nodir isod grynodeb o'r dangosyddion allweddol.

Yn ystod ei 6 mis cyntaf mae Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf., wedi cyflawni'r isod:

| Dangosydd | Targed hyd at Ch2 | Cyflawnwyd hyd at Ch2 |
|---|---|---|
| **Cymunedau Ffyniannus – Cynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a dod o hyd i waith** | | |
| Nifer y bobl sy'n chwilio am gyngor a chymorth | 36 | 75 |
| Nifer y bobl sy'n cael gwaith | 4 | 13 |
| Nifer y bobl sy'n ennill cymhwyster sy'n gysylltiedig â chyflogaeth | 2 | 3 |
| **Cymunedau Ffyniannus - Gostwng diweithdra ac ymddieithriad ymysg pobl ifanc** | | |
| Nifer y bobl sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd fel llwybr i gael gwaith | 5 | 8 |
| Nifer y bobl sy'n cael lleoliad trwy Twf Swyddi Cymru | 1 | 10 |
| Nifer y bobl sy'n ennill cymhwyster sy'n gysylltiedig â chyflogaeth | 5 | 19 |
| **Cymunedau Ffyniannus – Hyrwyddo cynhwysiant digidol** | | |
| Nifer y bobl sy'n ennill sgiliau TG sylfaenol | 30 | 33 |
| **Cymunedau Ffyniannus – Gwella medrusrwydd ariannol, rheoli dyledion a chodi incwm** | | |
| Nifer y bobl sy'n agor cyfrif Undeb Credyd | 0 | 102 |
| Nifer y bobl sy'n cael benthyciad Undeb Credyd | 10 | 40 |
| Nifer y bobl y gwelwyd eu llythrennedd/medrusrwydd ariannol yn gwella | 33 | 16 |
| Nifer yr oedolion sy'n gostwng neu'n rheoli eu dyledion | 20 | 60 |
| **Cymunedau Ffyniannus – Cefnogi menter, bancio amser ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol** | | |
| Nifer y mentrau a gafodd gymorth ar ffurf gweithgareddau dechrau busnes | 4 | 3 |

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y mentrau cymdeithasol a gychwynnwyd | 0 | 2 |
| **Cymunedau Ffyniannus – Gostwng y risg y bydd pobl ifanc yn troseddu** | | |
| Nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol rheolaidd | 70 | 192 |
| Nifer y bobl ifanc sy'n ennill cymwysterau allgwricwlar | 16 | 27 |
| **Cymunedau Dysgu – Dysgu gydol oes mewn cymunedau** | | |
| Nifer y bobl sy'n ennill cymhwyster | 5 | 5 |
| Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gwirfoddoli i ddysgu | 5 | 8 |
| **Cymunedau Dysgu – Gwella sgiliau bywyd oedolion** | | |
| Nifer y bobl sy'n ennill cymhwyster | 20 | 44 |
| Nifer y bobl sy'n symud ymlaen i ddysgu pellach | 5 | 16 |
| **Cymunedau Iach – Hyrwyddo lles corfforol** | | |
| Nifer y bobl sy'n fwy ymwybodol o risgiau gordewdra. | 8 | 64 |
| Nifer y bobl gydag agwedd fwy cadarnhaol at wella eu hiechyd corfforol | 6 | 29 |
| Nifer y bobl sy'n dangos lefel uwch o weithgaredd corfforol | 1 | 0 |
| **Cymunedau Iach – Annog bwyta'n iach** | | |
| Nifer y bobl ifanc sy'n bwyta llysiau a ffrwythau ffres bob diwrnod | 100 | 165 |
| Nifer y dynion 50+ sy'n gallu cyllidebu ar gyfer diet iach am wythnos. | 8 | 0 |
| Nifer y dynion 50+ sy'n fwy hyderus o'u gallu i goginio pryd ffres | 6 | 0 |
| Nifer y dynion 50+ sy'n coginio pryd ffres o leiaf unwaith yr wythnos. | 5 | 0 |
| **Cymunedau Iach – Gostwng ymddygiad sy'n peri risg** | | |
| Nifer y bobl ifanc gyda gwell dealltwriaeth o risgiau | 3 | 27 |
| Nifer y bobl ifanc sy'n gostwng ymddygiad sy'n peri risg. | 2 | 0 |

**Cyllid Cymunedau'n Gyntaf:**

| | 12/13 Gwariant £ | 13/14 Hyd at Ch2 Gwariant £ |
|---|---|---|
| **Cyflogau** | 117,251 | 196,833 |
| **Ffioedd Rheoli** | 11,519 | 13,937 |
| **Teithio a Chynhaliaeth** | 788 | 2,250 |
| **Hyfforddiant** | 540 | 776 |
| **Costau Adeiladau** | 21,837 | 19,922 |
| **Cynllun Ymgysylltiad Cymunedol** | 6,110 | 5,425 |
| **Digwyddiadau Cymunedol – Costau Prosiect** | 187 | 5,123 |
| **Costau Prosiect – Academi Alwedigaethol** | | 6,105 |
| **Cyfanswm a hawliwyd** | 158,232 | 250,371 |
| **Cyllideb** | 173,745 | 596,203 |
| **Tanwariant 12/13 a'r Balans sydd ar ôl i'w wario yn 13/14** | 15,513 | 345,832 |

Bydd PDC yn cynnal archwiliad allanol o'r cyllid am y cyfnodau 12/13 a 13/14 fel rhan o Raglen Archwilio Grantiau 14/15.

This page is intentionally left blank

# Ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau tân a achub yng Ngogledd Cymru

## Gwybodaeth ac ymgynghoriad cyhoeddus ar amcanion gwella arfaethedig ar gyfer 2014-15 a'r tu hwnt

**Ymgynghoriad Cyhoeddus**
**16eg Medi 2013 i 9fed Rhagfyr 2013**

# CYNNWYS


| | Tud. |
|---|---|
| Cyflwyniad | |
| Cyflwyniad | 4 |
| | |
| Y cefndir | |
| Y cefndir diweddar | 6 |
| Ymgynghoriad yr Awdurdod yn 2012 | 8 |
| Camau a gymerir yn 2013-14 | 10 |
| | |
| Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol | |
| Ymgynghoriad yr Awdurdod yn 2013 (ar gyfer 2014-15) | 11 |
| Cwestiynau ymgynghoriad yr Awdurdod | 17 |
| | |
| Atodiadau | |
| Gwybodaeth allweddol am Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | 18 |
| I gyfeirio atynt | 20 |
| | |



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych, LL17 0JJ

Gwefan www.gwastan-gogcymru.org.uk

# CYFLWYNIAD

Mae'r risgiau sy'n wynebu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn newid. Fel llawer o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, mae'r Awdurdod yn wynebu'r siawns o gynnydd posib mewn galw, ond â llai o arian.

Yn debyg i'r modd y mae unigolion yn mynd ati i ailasesu'r ffordd y maent yn byw ac i adolygu eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, mae'r Awdurdod hefyd yn gorfod ailystyried sut y mae'n darparu ac yn cyflwyno ei wasanaethau fel ei fod yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau effeithiol o safon uchel yng Ngogledd Cymru dros yr 20 neu'r 30 mlynedd nesaf.

Nod yr Awdurdod yw darparu gwasanaethau sy'n gwella'n barhaus, a hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon bosib gyda'r arian sydd ar gael. Fel arfer, mae hyn yn golygu cyflwyno ffyrdd newydd ac arloesol o wneud pethau.

Un elfen bwysig o'r gwelliant parhaol hwnnw yw'r pwyslais mae'r Awdurdod yn ei roi ar gydweithio â sefydliadau eraill yn y sector gyhoeddus. Wrth wneud hyn, gall yr Awdurdod sicrhau nifer o welliannau gwirioneddol effeithiol yn ei ganlyniadau (e.e. wrth weithio ag ystod o sefydliadau eraill yng Ngogledd Cymru i adnabod a chefnogi pobl sy'n agored i niwed) ac yn ei effeithlonrwydd (e.e. wrth weithio â Heddlu Gogledd Cymru yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd, i reoli ein hadeiladau ac wrth daclo'r broblem llosgi bwriadol).

Mae'r Awdurdod yn gwbl ymrwymedig i gynyddu'r cydweithio a wneir lle bynnag bo modd. Mae'n cymryd rhan weithredol yng ngwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol yng Ngogledd Cymru, ac yn gweithio'n agos iawn gyda'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn enghraifft wych o'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru yn dod at ei gilydd i yrru ymlaen â'r agenda gydweithio ar draws Cymru.

Ers i'r Awdurdod gael ei greu yn 1996 mae wedi meithrin dealltwriaeth dda o broffil y risg a'r anghenion busnes yn yr ardal sydd o dan ei ofal. Yn ystod yr amser hwnnw mae wedi gweld gostyngiad derbyniol yn nifer y tanau yn yr ardal a gostyngiad cyson yn nifer y bobl sy'n cael eu hanafu gan dân.


Yr her nawr yw cynnal y llwyddiant hwn ar adeg o heriau digynsail a galw posib ar wasanaethau. Mae'n anodd rhagweld yn sicr beth fydd y newidiadau a ddaw dros y degawd nesaf, ond mae modd gwneud asesiad rhesymol o'r pwysau tebygol, a symud i gyfeiriad lliniaru'r rheini cyn iddynt fod yn rhy anodd i'w trechu.

Rydym wedi ymrwymo i wneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. Gobeithio y byddwch yn ystyried ein cynigion ac yn gadael inni wybod beth yw eich barn – boed chi'n cytuno â ni ai peidio, neu'n gallu cynnig dewisiadau gwell.

# Y CEFNDIR DIWEDDAR

**Arbedion a wnaed gan yr Awdurdod**

Rhoddodd y dirywiad economaidd cenedlaethol, ynghyd â chanlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn Nhachwedd 2010, arwydd o lefel y toriadau i wasanaethau cyhoeddus oedd i'w disgwyl. Yn Rhagfyr y flwyddyn honno, penderfynodd yr Awdurdod rewi'r gyllideb flynyddol ar gyfer rhedeg y Gwasanaeth ar £32 miliwn am dair blynedd.




Ystyr hyn mewn termau real oedd y byddai unrhyw gynnydd mewn costau yn y blynyddoedd hynny (ee oherwydd chwyddiant neu gynnydd mewn costau tanwydd) wedi gorfod cael ei dalu o'r gyllideb gyfredol: felly bob blwyddyn byddai'n rhaid tynnu tua £800,000 o rai rhannau o'r Gwasanaeth er mwyn talu am gynyddiadau nad oedd modd eu hosgoi. I gyd, erbyn diwedd y drydedd flwyddyn (2013/14), roedd yn rhaid sicrhau £2.45 miliwn y flwyddyn o arbedion.

# Y CEFNDIR DIWEDDAR

**Sut y cafwyd yr arbedion?**

**Yn 2011/12**

- £200,000 wedi ei ryddhau drwy edrych yn fanwl iawn ar linellau penodol yn y gyllideb, a chytuno y dylai'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol ddod i ben yn llwyr neu gael ei leihau.
- £50,000 wedi ei dorri o'r gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol.
- £90,000 wedi ei dorri o'r gyllideb Staff Cefnogol.
- £460,000 wedi ei dorri o'r gyllideb rheolwyr gweithredol drwy ailstrwythuro'r trefniadau Gofal Swyddogion.
- £30,000 wedi ei dorri o gyllideb yr Ystafell Reoli drwy ailstrwythuro'r trefniadau staffio.

**Yn 2012/13**

- Cafodd llinellau unigol yn y gyllideb eu torri neu eu lleihau eto, gan ryddhau £150,000.
- £50,000 arall wedi ei dorri o'r gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol.
- £90,000 arall wedi ei dorri o'r gyllideb Staff Cefnogol.
- £500,000 wedi ei ryddhau o gyllideb cyflogau diffoddwyr tân gweithredol drwy newid y ffordd y caiff eu shifftiau eu cylchrestru ond heb leihau nifer y diffoddwyr tân sydd ar griwiau at argyfyngau.

**Yn 2013/14**

- Cafodd llinellau unigol yn y gyllideb eu torri neu eu lleihau am y trydydd tro, gan ryddhau £70,000 pellach.
- £50,000 arall wedi ei dorri o'r gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol.
- £180,000 arall wedi ei dorri o'r gyllideb Staff Cefnogol.
- £500,000 pellach wedi ei ryddhau o gyllideb cyflogau diffoddwyr tân gweithredol drwy newid y ffordd y caiff eu shifftiau eu cylchrestru (fel uchod).

# YMGYNGHORIAD YR AWDURDOD YN 2012

**Cynigion Drafft 2013-14 at ddiben Ymgynghori**

Yr hydref diwethaf (2012) cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad cyhoeddus ar ei Amcanion Gwella drafft ar gyfer 2013-14.

Dyma'r hyn a gynigiodd yr Awdurdod ar gyfer 2013-14:

**A. parhau i fynd ynglŷn â'i ddau Amcan Gwella, sef:**

1. atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau
2. lleihau costau rhedeg y Gwasanaeth

ynghyd â'r canlynol:

**B. cynnal dau brosiect newydd a fyddai'n bwydo i mewn i Amcanion Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2014-15 drwy wneud y canlynol:**

1. dyfeisio cynllun ariannol tair blynedd ar gyfer 2014/15 ac ymlaen
2. edrych ar ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru.

Daeth y ddau brosiect o ganlyniad i'r ffaith fod asesiad manwl yr Awdurdod o'r risgiau sy'n wynebu ei weithrediadau yn y dyfodol wedi dangos y byddai angen iddo baratoi ar gyfer bygythiadau mewn tri maes, sef:

- galw cynyddol am wasanaethau;
- llwyth gwaith sy'n mynd yn fwyfwy anodd ei ragweld; ac
- effeithiau adeg heriol yn ariannol.

# YMGYNGHORIAD YR AWDURDOD YN 2012

## Yr Ymateb i Ymgynghoriad 2012

Derbyniodd yr Awdurdod ryw 170 o wahanol sylwadau, safbwyntiau a chwestiynau drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus. At ei gilydd, roedd yr ymateb yn cefnogi'r hyn a gynigid, gyda 74% o'r ymatebion yn cytuno â'i ddewis o flaenoriaethau ar gyfer 2013-14.

Yn yr ymgynghoriad yn 2012, fe wnaeth yr Awdurdod amlinellu rhai o'r anawsterau sy'n ei wynebu wrth gynnal y gofal tân mewn ardaloedd sy'n wledig yn bennaf. Er mwyn goleuo ei strategaeth ar gyfer y dyfodol, roedd un cwestiwn wedi gofyn i'r cyhoedd feddwl sut y byddent yn ymateb petaent yn gorfod gwneud dewis anodd rhwng y canlynol:

a) cadw gorsaf dân ar agor oherwydd ei bod yn agos at eu cartref, ond derbyn na fydd ar gael am sawl awr yr wythnos, ynteu

b) cael gorsaf dân sy'n wastad yn barod i ymateb, ond gan dderbyn ei bod sawl milltir ymhellach o'u cartref.

Roedd mwyafrif clir (tua dau draean o'r ymatebion) yn dweud y byddent, petaent yn gorfod dewis, yn dewis opsiwn b), ond roedd llawer yn gyndyn o dderbyn y dylid gwneud y math yma o ddewis.

Roedd nifer o'r ymatebion yn cydnabod yr angen i leihau costau, cynyddu effeithlonrwydd a lleihau aneffeithlonrwydd, ond nid ar draul 'gwasanaethau rheng flaen' a ddylid, yn eu tyb nhw, gael eu hamddiffyn yn fwy na dim. Yn ddiddorol, roedd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau am effeithlonrwydd ac arbed costau yn bethau yr oedd yr Awdurdod eisoes wedi ymdrin â nhw, megis lleihau costau'r ochr reoli a'r ochr gefnogol (gweler tud. 7).

# CAMAU GWEITHREDU YN YSTOD 2013-14

**Camau Arfaethedig 2013-14**

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, fe wnaeth yr Awdurdod roi ei gynlluniau ar waith ar gyfer cyflawni ei Amcanion Gwella yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

Yn ogystal â lleihau'r gyllideb £800,000 arall (gweler yr adran flaenorol), mae gan yr Awdurdod gynlluniau yn eu lle ar gyfer eleni i wneud y canlynol:

- cyflwyno'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol/Lleihau Risg
- monitro'n barhaus y tanau mewn anheddau a'r hyn sy'n eu hachosi
- cael cyfranogiad sefydliadau sy'n bartneriaid inni wrth ddysgu gwersi o ganlyniad i danau mewn anheddau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd eu bod yn digwydd eto
- archwiliad ac adolygiad o'r ffactorau a allai gyfrannu at y ffaith fod rhai pobl yn arbennig o agored i danau, gan groesgyfeirio pan fo'n briodol at y nodweddion gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- adolygiad o drefniadau cyfredol y Gwasanaeth gyda sefydliadau sy'n bartneriaid inni ar gyfer cynnal archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ac atgyfeirio pobl sydd yn arbennig o agored i danau
- monitro'r modd y mae'r Gwasanaeth yn cadw at yr ymrwymiadau a wnaed drwy'r Siarter newydd ar Ymateb i Danau mewn Anheddau.

Yng Nghynllun Cyfunol yr Awdurdod i Leihau Risg a Gwella 2013-14, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013, ceir rhagor o fanylion am y camau hyn a pha allbynnau a chanlyniadau mesuradwy y gellid eu disgwyl.

## YMGYNGHORIAD YR AWDURDOD YN 2013

Erbyn hyn, mae'r Awdurdod yn mynd i mewn i'r cam nesaf o'i waith cynllunio. Mae'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod yn parhau, a rhaid mynd i'r afael â rhai heriau tymor hir o hyd.

Mae'r Awdurdod yn cynnig tri Amcan Gwella i'w mabwysiadu yn 2014-15.

Mae'r Amcan Gwella cyntaf yn cael ei gario drosodd o'r blynyddoedd blaenorol, gan adlewyrchu ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân.

Mae'r ail Amcan Gwella yn adlewyrchu dull gwahanol o ariannu'r Gwasanaeth wrth iddo ddod i ddiwedd y cyfnod o rewi'r gyllideb am dair blynedd.

Mae'r trydydd Amcan Gwella yn adlewyrchu'r ffaith fod yr Awdurdod yn cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau tân ac achub cynaliadwy a fforddiadwy yng Ngogledd Cymru yn y tymor hir.

# YMGYNGHORIAD YR AWDURDOD YN 2013

**Amcan Gwella Arfaethedig 1**


**Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.**

**Pam y dewiswyd hyn yn amcan?**

Oherwydd bod cadw pobl yn ddiogel yn ganolog i'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud, ond hefyd oherwydd ei bod yn gwneud llawer mwy o synnwyr i atal digwyddiadau rhag digwydd yn hytrach na dim ond ymateb iddynt bob tro y maent yn digwydd.

Heblaw am yr effaith gadarnhaol ar bobl, maent yn costio llai hefyd, oherwydd am bob anaf a gaiff ei hatal, bydd arbediad cost cysylltiedig mewn rhannau eraill o'r gwasanaethau cyhoeddus.

Ond er rhai llwyddiannau nodedig yn gostwng nifer cyffredinol yr achosion o danau dros y blynyddoedd diwethaf, mae marwolaethau ac anafiadau mewn tanau mewn anheddau yng Ngogledd Cymru yn dal i beri pryder i'r Awdurdod.




Ers llawer blwyddyn, mae'r Awdurdod yn atgoffa pobl bod atal yn well na diffodd, ac mae'n dal i gredu hynny. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gadw ei darged blynyddol o gynnal 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i aelwydydd yng Ngogledd Cymru, ond mae demograffeg yr ardal, a'r ymddygiadau a ganfuwyd yn golygu y bydd, efallai, angen cynyddu'r gwaith ataliol er mwyn cadw i fyny.

# YMGYNGHORIAD YR AWDURDOD YN 2013

**Amcan Gwella Arfaethedig 2**

**Gweithredu cynllun ariannol 3 blynedd ar gyfer 2014/15 i 2016/17 sy'n ariannu lefel gyfredol y gwasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu ar y gost o wneud hynny i gyfateb i £1 y flwyddyn y pen yn ychwanegol.**

**Pam y dewiswyd hyn yn amcan?**

Ers 2010/11, mae'r gyllideb wedi aros yr un fath, ac mae costau rhedeg y Gwasanaeth wedi gostwng. Sicrhawyd hyn drwy'r hyn y gellid ei alw'r doriadau 'mewnol', gyda phrin iawn o newidiadau gweladwy o'r tu allan. I'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr y gwasanaeth, mae'n siŵr na fyddent wedi gweld fawr o wahaniaeth.

Fodd bynnag, cyrhaeddwyd y pwynt lle y byddai parhau i rewi'r gyllideb yn cael effaith weladwy iawn ar y gwasanaethau tân ac achub a ddarperir yng Ngogledd Cymru, ac nid yw'r Awdurdod yn meddwl mynd ar ôl hynny. Dyna pam bod yr Awdurdod yn bwriadu newid ei ddull o ymdrin â'i gyfnod nesaf o gynllunio'r gyllideb am dair blynedd.

**Mae'r Awdurdod yn bwriadu cynyddu'r gyllideb flynyddol ddigon i gynnal y lefel gyfredol o wasanaeth, gan ofalu na ddylai lefel y cynnydd blynyddol yng Ngogledd Cymru gyfateb i fwy na £1 y flwyddyn y pen yn ychwanegol.**

## YMGYNGHORIAD YR AWDURDOD YN 2013


**Yn ddamcaniaethol, beth fyddai rhagor o doriadau yn ei olygu?**

Petai'r Awdurdod yn peidio â gwneud y cynnydd hwn, ac yn penderfynu rhewi'r gyllideb am dair blynedd arall, byddai hynny'n golygu lleihau costau rhedeg y Gwasanaeth £3.3 miliwn ar ben y £2.45 miliwn sydd eisoes wedi ei dynnu dros gyfnod y cynllun ariannol tair blynedd diwethaf.

- **Byddai sicrhau £3.3 miliwn o arbedion yn golygu gorfod:**
- cau 7 o orsafoedd tân y system RDS, a thrwy hynny gael gwared yn barhaol ar 100 o swyddi diffoddwyr tân **YNGHYD Â**
- cael gwared ar un injan dân amser cyflawn o'r gwasanaeth yn Wrecsam (yr unig orsaf dân yng Ngogledd Cymru sydd â dwy), ac felly gael gwared yn barhaol ar 28 o swyddi diffoddwyr tân **YNGHYD Â**
- cael gwared ar beiriannau tân y system RDS, ac felly gael gwared yn barhaol ar 100 o swyddi diffoddwyr tân o'r gorsafoedd tân amser cyflawn yng Nghaergybi, Caernarfon, Bangor, Llandudno, Bae Colwyn, y Rhyl, Queensferry a Wrecsam, gan adael dim ond un injan dân ar bob gorsaf.

Ar ôl cadw'r gyllideb ar yr un lefel ers 2010/11, mae costau darparu'r Gwasanaeth wedi gostwng £2.45 miliwn.

Ar gyfer y dyfodol, y cynnig yw cadw lefel y gwasanaeth yr un fath, hyd yn oed os yw hyn yn golygu cynyddu'r gyllideb fymryn i ariannu hynny.



## Faint fyddai hynny'n ei ychwanegu at y gost?

Mae'r Awdurdod yn gwybod yn iawn bod pob gwasanaeth cyhoeddus yn gorfod cyfyngu ar ei wariant, ac nid yw'r gwasanaeth tân ac achub wedi ei warchod rhag effeithiau hinsawdd ariannol mor galed.

Byddai cyllideb ychwanegol yr Awdurdod Tân ac Achub yn dod gan y chwe chyngor sir yng Ngogledd Cymru. Felly, mae'n addo ceisio cyfyngu ar faint yr effaith cyllidebol ar yr awdurdodau cyfansoddol i gyfanswm sy'n cyfateb i £1 y flwyddyn y pen yn ychwanegol.

Er gwybodaeth, yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru:

Roedd y gwariant refeniw y cyllidebwyd ar ei gyfer yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 2013/14 yn cyfateb i **£46 y pen** o'r boblogaeth[1].

Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn Gogledd Cymru yn 2012/13 oedd 688,417, gan godi i 698,664 amcanol erbyn 2016/17[2].

---

[1] SDR 97/2013 Gwariant Refeniw Awdurdodau Lleol wedi'i gyllidebu 2013-14, Tabl 2. http://wales.gov.uk/docs/statistics/2013/130618-local-authority-budgeted-revenue-expenditure-2013-14-en.pdf (Saesneg yn unig).

[2] www.StatsWales.Wales.gov.uk Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn.

## YMGYNGHORIAD YR AWDURDOD YN 2013

**Amcan Gwella Arfaethedig 3**

**Sicrhau bod Gogledd Cymru yn cael y lefel orau o wasanaeth o fewn y cyfyngiadau ariannol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau rheoli er mwyn cael y gofal tân ac achub gorau posibl yn yr ardal.**

### Pam y dewiswyd hyn yn amcan?

Yn ei ymgynghoriad cyhoeddus y llynedd, fe wnaeth yr Awdurdod esbonio rhai o anawsterau darparu gwasanaethau tân ac achub mewn ardaloedd sy'n wledig yn bennaf. Yng Ngogledd Cymru, gorsafoedd tân yn cael ei criwio gan diffoddwyr tân sy'n gweithio ar y system RDS yw'r rhan fwyaf o orsafoedd, gydag aelodau'r criwiau'n derbyn tâl cadw blynyddol a ffioedd am droi allan at ddigwyddiadau.

Mae mwyafrif helaeth staff y system RDS yn gwbl ymroddedig i'w gwaith, ond mae'n dod yn fwyfwy anodd i ddenu a chadw staff sy'n gallu darparu gofal tâl a gwneud swydd lawn amser gyda'u prif gyflogwr. Roedd y system ddyletswydd hon yn gweddu'n dda iawn i'r cenedlaethau a fu gan fod pobl fel arfer yn aros o fewn eu cymunedau heb deithio ymhell i weithio na hamddena, a gallai cwmnïau fforddio cyflogi llawer o staff. Ond bellach, mae'r prif gyflogwyr dan bwysau i weithredu gyda chyn lleied o weithwyr ag y bo modd, gan ei gwneud yn llai tebygol y gallant fforddio caniatáu i'w staff adael eu lle gwaith i fynd at argyfwng ar ran y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae aelodau o'r Gwasanaeth wedi bod yn edrych ar ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau tân ac achub, ac wedi ymweld â nifer o Wasanaethau Tân ac Achub mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig i weld pa ddulliau gwahanol sydd ar waith. Cymysg yw'r adroddiadau a gafwyd, gyda rhai o'r dulliau gwahanol yn rhy newydd inni allu mesur y goblygiadau llwyr o'u mabwysiadu.

**Gan gymryd cynaliadwyedd a fforddiadwyedd gwasanaethau yn y tymor hir fel egwyddorion arweiniol, mae'r Awdurdod yn cynnig y dylai'r gwaith o ganfod opsiynau amgen addas ar gyfer darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru barhau i ddatblygu.**

# RHOWCH EICH BARN

Hoffem annog pawb sydd â diddordeb yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ddweud wrthym beth maent yn ei feddwl o'n Hamcanion Gwella ar gyfer 2014-15.

Anfonwch eich sylwadau, os gwelwch yn dda:

**Drwy lythyr i:**

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy
Sir Ddinbych, LL17 0JJ

**Drwy e-bost i:**

dyfodoltan@gwastan-gogcymru.org.uk

Gallwch hefyd ymweld â

www.gwastan-gogcymru.org.uk

@northwalesfire – Twitter

www.facebook.com/northwalesfireservice

# ATODIADAU

# GWYBODAETH ALLWEDDOL AM WASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU



# GWYBODAETH ALLWEDDOL AM WASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | 2011-12 | 2012-13 |
|---|---|---|
| Cyllideb refeniw | £31.933 miliwn | £31.772 miliwn |
| Grantiau a dderbyniwyd | £2.692 miliwn | £2.299 miliwn |
| Gwariant cyfalaf | £4.491 miliwn | £2.865 miliwn |
| Gorsafoedd tân | 44 | 44 |
| Injanau tân | 54 | 54 |
| Pobl a gyflogir ar 31 Mawrth | 983 | 900 |
| Tanau yr aethpwyd atynt | 3,165 | 2,349 |
| Argyfyngau nad oeddent yn danau ac yr aethpwyd atynt | 990 | 1,204 |
| Galwadau diangen yr aethpwyd atynt | 3,566 | 3,249 |
| Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd | 28,472 | 22,201 |

Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan, neu gallwch gysylltu â ni yn y cyfeiriad sydd ar y dudalen gynnwys.

# I GYFEIRIO ATYNT

**Ffynonellau gwybodaeth allanol defnyddiol:**

www.statswales.wales.gov.uk
http://www.infobasecymru.net/IAS/

**Dyletswyddau a Deddfwriaeth Allweddol**

Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn gweithredu o fewn fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol cymhleth, sy'n cynnwys:

- Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Deddf Argyfyngau Sifil 2004
- Mesur Llywodraeth Leol 2009
- Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru o 2012 ymlaen

**Cyfraniadau ariannol**

Caiff y gwariant refeniw ei ariannu gan y chwe awdurdod cyfansoddol, i gyd-fynd â'u poblogaeth. Dyma'r cyfraniadau:

| Awdurdod | Cyfraniad 2012/13 £ | Amcangyfrif poblogaeth 2013 | Cyfraniad 2013/14 £ | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 5,206,959 | 112,988 | 5,198,570 | -0.16% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3,219,270 | 69,903 | 3,216,231 | -0.09% |
| Cyngor Gwynedd | 5,525,827 | 119,713 | 5,507,985 | -0.32% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4,569,316 | 99,840 | 4,593,630 | +0.53% |
| Cyngor Sir y Fflint | 6,981,590 | 151,165 | 6,955,089 | -0.38% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 6,269,049 | 136,938 | 6,300,506 | +0.50% |
| **Cyfanswm** | **31,772,011** | **690,547** | **31,772,011** | |

(Mae'r newidiadau fesul awdurdod yn adlewyrchu newidiadau yn y boblogaeth.)

# I GYFEIRIO ATYNT

**Cynlluniau gwario yn 2013-14:**

| | **Cyllideb 2012/13 £** | **Cyllideb 2013/14 £** |
|---|---|---|
| Gweithwyr | 23,048,716 | 22,945,848 |
| Adeiladau | 1,279,800 | 1,310,347 |
| Trafnidiaeth | 1,148,051 | 1,178,052 |
| Cyflenwadau | 3,009,194 | 2,979,346 |
| Asiantaeth | 319,000 | 322,000 |
| Gwasanaethau Cefnogi | 323,700 | 377,960 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 2,923,050 | 2,946,623 |
| **Cyfanswm** | **32,051,511** | **32,060,176** |
| Incwm | -279,500 | -288,185 |
| **Gwariant Net** | **31,772,011** | **31,772,011** |

## I GYFEIRIO ATYNT

**Staffio**

| Ar 31/03/2013 | Swyddi | Cyfwerth â Llawn Amser | Nifer gweith -wyr |
|---|---|---|---|
| **Staff gweithredol amser cyflawn**<br>*Mae 74% o'r swyddi hyn ar orsafoedd tân. Mae'r gweddill yn swyddi uwch reoli a swyddi arbenigol, gan gynnwys hyfforddi a gwaith ataliol.* | 242 | 254 | 254 |
| | | | |
| **Staff gweithredol y system RDS**<br>*Mae'r holl swyddi hyn ar orsafoedd tân.* | 557 | 406.5 | 467 |
| | | | |
| **Staff yr Ystafell Reoli**<br>*Mae 86% o'r swyddi hyn yn llwyr yn yr ystafell reoli. Mae'r gweddill yn swyddi rheolwyr canol ac uwch reolwyr, gan gynnwys hyfforddiant yn yr ystafell reoli a rheoli parhad busnes.* | 28 | 28.75 | 32 |
| | | | |
| **Staff anweithredol**<br>*Mae'r swyddi hyn mewn gwahanol swyddogaethau, gan gynnwys rheoli'r fflyd, cynnal a chadw adeiladau, TGCh, cyllid a'r gyflogres, adnoddau dynol, cyfathrebu corfforaethol a gweinyddu. Mae 31% mewn diogelwch tân a diogelwch tân cymunedol.* | 145.57 | 137.42 | 147 |
| **Cyfansymiau** | **972.57** | **826.67** | **900** |

**Salwch ac anafiadau ymhlith staff**

Yn 2012/13:

- Collwyd cyfanswm o 1,267 o ddiwrnodau neu shifftiau oherwydd absenoldeb salwch tymor byr, a chollwyd 3,263 o ddiwrnodau neu shifftiau oherwydd absenoldeb salwch tymor hir. Mae hyn yn cyfateb i 10.5 o ddiwrnodau neu shifftiau am bob person (ac eithrio staff y system RDS.)
- Bu 7 o ymddeoliadau ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn.
- Anafwyd 29 o ddiffoddwyr tân mewn digwyddiadau ar yr ochr weithredol. Ni chafodd neb anafiadau angheuol nac anafiadau mawr i'w hadrodd o dan Reoliadau RIDDOR. Roedd y 29 o anafiadau hyn (cyfanswm) yn golygu colli cyfanswm o 559 o ddiwrnodau dyletswydd arferol oherwydd absenoldeb salwch.

# I GYFEIRIO ATYNT

**Gorsafoedd Tân**

Mae 44 o orsafoedd tân yng Ngogledd Cymru.

- 3 o orsafoedd shifftiau amser cyflawn
- 5 o orsafoedd criw dydd
- 36 o orsafoedd y system RDS

**Peiriannau tân**

Mae un peiriant tân a chriw'r system RDS ymhob gorsaf heblaw am Bwllheli, lle mae dwy (45).
Hefyd, mae peiriant tân amser cyflawn ymhob gorsaf shifftiau amser cyflawn a chriw dydd, heblaw am Wrecsam, lle mae dwy (9).

**Lefelau gweithgarwch**

Yn 2012/13, fe wnaeth y gwasanaeth:

- Ymdrin â 15,740 o alwadau am gymorth, ac roedd angen troi allan at 6,802 ohonynt.
- Troi allan at 2,349 o danau, 1,204 o argyfyngau nad oeddent yn danau, a 3,249 o alwadau diangen.
- Cynnal 22,201 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, rhoi 525 o sgyrsiau am ddiogelwch mewn ysgolion ac 8 mewn lleoedd eraill, a mynychu 17 o ddigwyddiadau cyhoeddusrwydd.
- Cynnal 867 o awditiau diogelwch tân ar safleoedd.
- Torri pobl o gerbydau mewn 74 o ddigwyddiadau.

**Ansawdd y gwasanaeth**

Yn 2012/13 fe wnaeth y gwasanaeth:

- Fynychu 15% o'r holl brif danau mewn llai na 5 munud, 51% rhwng 5 a 10 munud, 23% rhwng 10 a 15 munud ac 11% dros 15 munud.
- Fynd at 19% o danau mewn anheddau mewn llai na 5 munud, 50% rhwng 5 a 10 munud, 21% rhwng 10 a 15 munud a 10% dros 15 munud.
- Gynnal 7,742 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref i bobl arbennig o fregus, a'r rhain wedi eu trefnu'n benodol yn dilyn atgyfeiriad gan un o'r sefydliadau sy'n bartneriaid inni.
- Gofnodi bod 91% o'r tanau damweiniol mewn anheddau wedi eu cyfyngu i'r ystafell lle y cychwynnodd y tân.

# I GYFEIRIO ATYNT

**Canlyniadau**

| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|---|
| Tanau | 3,289 | 3,156 | 2,349 |
| Prif danau | 1,346 | 1,296 | 1,143 |
| Tanau mewn Anheddau | 535 | 530 | 493 |
| Tanau Annomestig | 229 | 215 | 147 |
| Tanau Eilaidd | 1,623 | 1,609 | 887 |
| Marwolaethau oherwydd tân | 10 | 8 | 8 |
| Anafiadau oherwydd tân | 97 | 64 | 60 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** |
| **DYDDIAD:** | **28 TACHWEDD 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **RHAGLEN WAITH** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **SWYDDOG SGRIWTINI** |
| **GWEITHREDU GOFYNNIR:** | **Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo, newid neu ddiwygio ei Raglen Waith fel y gwêl yn briodol.** |

**1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Cyflwyno rhaglen waith ddrafft (Atodiad 1) i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo, ddiwygio neu newid ei Raglen Waith fel y gwêl yn briodol.

1.2 Pwrpas y rhaglen waith yw nodi blaenoriaethau'r Cyngor yn y flwyddyn sirol gyfredol (Mai 2013 i Mai 2014). Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dylai bod pobl yn cael gwybod am swyddogaeth sgriwtini'r Cyngor a'r gwaith y mae'n bwriadu ei wneud. Bydd y rhaglen waith yn cael ei chynnwys ar dudalennau gwe'r Uned Sgriwtini ynghyd â gwybodaeth ychwanegol ynghylch materion sgriwtini.

1.3 Dylid nodi, unwaith y bydd rhaglen waith wedi ei chytuno, yr adroddir arni i bob cyfarfod o'r Pwyllgor(i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried cynnwys eitemau newydd neu ohirio/dynnu eitemau cyfredol, a chynllunio ar gyfer y cyfarfod nesaf). Bydd hyn yn sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei diweddaru a'i bod ar gael i'r cyhoedd fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

**2.0 CEFNDIR.**

2.1 Er mwyn cydymffurfio gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru (gweler paragraff 1.2 os gwelwch yn dda) rhaid i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio sefydlu rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn sirol Mai 2013 i Fai 2014. Fel gyda'r holl Bwyllgorau Sgriwtini, dylai'r gwaith a wneir fod o fudd i'r Cyngor. Pwrpas cynllunio ymlaen llaw yw:

- Nodi materion sy'n achosi pryder neu ffyrdd y gall Sgriwtini gyfrannu at nodau cyffredinol y Cyngor.

- Cytuno pa Bwyllgor Sgriwtini sydd fwyaf addas i ddelio gyda phob pwnc(e.e. adroddiad i Bwyllgor, Archwiliad gan Banel neu adroddiadau gwaith parhaus).
- Cynllunio sut y gellir gwneud gwaith o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac o fewn amserlenni rhesymol.

2.2 Yn unol â Chyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn, rhaid i Bwyllgor Sgriwtini fod yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun. Dylai bennu ei raglen waith mewn ymgynghoriad gyda phob aelod o'r Pwyllgor ac, os oes modd, mewn ymgynghoriad gyda'r swyddogion perthnasol. Dylai'r Pwyllgor hefyd ystyried cyfeiriadau gan y Pwyllgor Gwaith, y Cyngor neu Bwyllgorau eraill.

## 3.0 CYLCH GORCHWYL

3.1 Mae Erthygl 6 yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu cylch gorchwyl pob Pwyllgor Sgriwtini, ynghyd â'u swyddogaethau a'u haelodaeth. Mae'r Rheolau Gweithdrefn Sgriwtini i'w gweld yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.

3.2 **Cylch Gorchwyl**

- Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar sicrhau bod buddiannau dinasyddion Ynys Môn yn cael eu hyrwyddo a bod blaenoriaethau ac adnoddau'r Cyngor yn cael eu hadlewyrchu yn llesol yn y partneriaethau, y cydweithio, y gweithio ar y cyd â threfniadau asiantaeth allanol, fel fydd yn bodoli o bryd i'w gilydd. Bydd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn ymestyn i drefniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a bydd yn cynnwys (ond heb fod wedi ei gyfyngu i) y meysydd lle mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol mewn materion trosedd ac anhrefn.
- Materion yn ymwneud ag adfywio a'r cysyniad "Ynys Fenter" (neu gynlluniau a pholisïau fydd yn eu holynu).
- Derbyn gwybodaeth a chyflwyniadau gan asiantau sector cyhoeddus allanol (e.e. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Chyngor Iechyd Cymuned Leol Betsi Cadwaladr) a sgriwtineiddio eu gwaith ar yr Ynys.
- Adolygu neu sgriwtineiddio penderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerwyd gan y Pwyllgor Gwaith wrth gyflawni ei swyddogaeth ac yng nghyswllt y penderfyniadau a wnaed ond "a alwyd i mewn" neu na weithredwyd arnynt i argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid ailystyried y penderfyniadau hynny.
- Adolygu neu sgriwtineiddio penderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd yng nghyswllt swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith, ac eithrio na fydd y pŵer hwn yn ymestyn i waith sgriwtineiddio penderfyniadau unigol ynglŷn â rheoli datblygu, trwyddedu, cofrestru neu unrhyw geisiadau eraill am ganiatadau neu hawliau.
- Sgriwtineiddio perfformiad gwasanaethau o dan anghenion Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.
- Cyflawni swyddogaeth y Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn yn unol ag Adran 19 (1) Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 a Rheoliadau Llywodraeth Cymru. Bydd Cylch Gorchwyl penodol lle bo'r Pwyllgor hwn yn ystyried ymarfer pwerau yng nghyswllt trosedd ac anhrefn yn cynnwys :

- adolygu a / neu sgriwtineiddio penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd yng nghyswllt yr awdurdodau cyfrifol yn cyflawni eu swyddogaethau trosedd ac anhrefn.

- gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor ac /neu'r Pwyllgor Gwaith yng nghyswllt yr awdurdodau cyfrifol yn cyflawni eu swyddogaethau trosedd ac anhrefn.

- ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor unrhyw fater trosedd ac anhrefn lleol a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor gan aelod o'r Cyngor.

- penderfynu a ddylid gwneud adroddiad neu argymhelliad i'r Cyngor ac/neu'r Pwyllgor Gwaith yng nghyswllt mater trosedd ac anhrefn lleol, gan roi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan yr aelod hwnnw ynglŷn â phaham y dylai'r Pwyllgor wneud hynny.

- hysbysu'r aelod penodol o'i benderfyniad a'r rhesymau am ei benderfyniad mewn unrhyw achos lle bo'r Pwyllgor yn penderfynu peidio â gwneud adroddiad neu argymhellion yng nghyswllt mater trosedd ac anhrefn lleol.

- darparu copi o unrhyw adroddiad neu argymhellion Pwyllgor i'r aelod penodol (yng nghyswllt mater trosedd ac anhrefn lleol) ac i unrhyw bersonau neu gyrff cyfrifol a chydweithredol, fel y bo'n credu sy'n briodol.

- adolygu ymatebion i adroddiadau ac argymhellion Pwyllgor a monitro'r camau a gymerwyd gan bersonau neu gyrff cyfrifol a chydweithredol mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau trosedd ac anhrefn yr awdurdodau cyfrifol.

3.3 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (fel y manylir arno yn y Cyfansoddiad ac fel yr amlinellir ef uchod) yn fanwl, ac i gynorthwyo aelodau yn eu dyletswyddau, byddai'n deg crynhoi'r swyddogaethau allweddol ar ffurf y pwyntiau bwled isod:

- Monitro perfformiad partneriaethau strategol lleol mewn perthynas â pholisïau a chynlluniau.
- Cyfrannu at bolisi partneriaeth a datblygu strategaethau.
- Cynrychioli sylwadau'r cyhoedd mewn partneriaethau strategol.
- Gweithredu fel "ffrind beirniadol" i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chyrff cyhoeddus eraill ar yr Ynys.
- Cyfarfod unwaith y flwyddyn i adolygu penderfyniadau a wnaed a chamau a gymerwyd gan awdurdodau cyfrifol mewn perthynas â'u swyddogaethau trosedd ac anhrefn.
- Materion Datblygu Economaidd/Adfywio.
- Diweddaru rhaglen waith y Pwyllgor.

## 4.0 CASGLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried ei raglen waith ddrafft fel y manylir arni yn **ATODIAD 1** a'i chymeradwyo neu ei newid fel y gwêl yn briodol.

Awdur: Geraint Wyn Roberts Dyddiad: 18 Tachwedd 2013
Teitl y Swydd: Swyddog Sgriwtini

| ATODIAD 1- Rhaglen Waith Drafft |
| --- |

***ATODIAD 1***

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cadeirydd: Y Cynghorydd Derlwyn Hughes
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Alun Mummery

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o fis Mai 2013 i fis Mai 2014. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| 30 Mai 2013 | Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor | Mae angen i'r Pwyllgor ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar ddechrau blwyddyn sirol newydd 2013/14. | Siambr y Cyngor |
| | | | |
| 17 Mehefin 2013 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Sesiynau briffio 6 misol gan y Bwrdd Iechyd i ddiweddaru Aelodau ar eu rhaglen moderneiddio, materion lleol a materion iechyd cyhoeddus. | Ystafell Bwyllgor 1/1pm |
| | Adran 33 – Cytundeb ar gyfer y Gwasanaeth Arbenigol Plant | Sgriwtini cyn gwneud penderfyniad ar gynigion i sefydlu Gwasanaeth Arbenigol Plant integredig, sengl mewn egwyddor, trwy gytundeb partneriaeth ffurfiol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. | |
| | Diogelu Oedolion – Tuag at Fframwaith Strategol ar gyfer Gogledd Cymru | Sgriwtini cyn gwneud penderfyniad ar gyfeiriad strategol y cyfrifoldeb diogelu oedolion, ynghyd â dod i farn ynghylch y newid i'r trefniadau rhanbarthol cyfredol a chreu Bwrdd Diogelu Oedolion 2 haen ar gyfer Gogledd Cymru. | |
| | Enwebu un Aelod o'r Pwyllgor i wasanaethu ar y Panel Rhiant Corfforaethol. | Enwebu aelod o'r Pwyllgor i wasanaethu ar y Panel sy'n gweithredu ar ran y Cyngor ac sy'n sicrhau bod gwasanaethau i blant/pobl ifanc | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| | | sy'n derbyn gofal o safon uchel. | |
| | Enwebu 2 aelod o'r Pwyllgor i wasanaethu ar y Bwrdd Rhaglen Ynys Fenter ac un aelod i wasanaethu ar y Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth. | Enwebu aelodau Pwyllgor i wasanaethu ar y ddau Fwrdd Rhaglen. Mae Cynllun Trawsnewid Ynys Môn yn sefydlu tri Bwrdd Rhaglen i oruchwylio a gyrru rhaglenni a phrosiectau newid yn y Cyngor. | |
| | | | |
| 25 Gorffennaf 2013 | Partneriaethau Strategol | Trosolwg a chyflwyniad i rôl y Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, y Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. | Ystafell Bwyllgor 1/1pm |
| | Datganiad Dulyn | Sgriwtini cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylai'r Cyngor wneud cytundeb i gydweithio gydag awdurdodau eraill i ddatblygu polisïau ac arferion i greu cymunedau oed-gyfeillgar. | |
| | Rhaglen Waith | Cyflwyno rhaglen waith i'r Pwyllgor ei gymeradwyo, ei newid neu ei ddiwygio. | |
| | Diweddariadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd ac unrhyw gyhoeddiadau. | Derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd | |
| | | | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| 25 Medi 2013 | Datblygu ac Adfywio Economaidd | Cyflwyno gwybodaeth ar strwythur a gwaith Gwasanaeth Datblygu Economaidd Ynys Môn, gan gynnwys trosolwg o'i gwaith ar amryfal bartneriaethau i hyrwyddo datblygiad ac adfywiad economaidd ar yr Ynys. | Ystafell Bwyllgor 1/1pm |
| | Menter Môn | Cyflwyno gwybodaeth ar waith Menter Môn oherwydd bod ganddo rôl o ran hwyluso adfywiad economaidd gwledig yn Ynys Môn, ynghyd â throsolwg o sut mae'n cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i hyrwyddo datblygiad ac adfywio. Efallai y bydd angen cynnal ymweliad safle, i weld prosiectau ar waith, yn ystod y flwyddyn. | |
| | Rhaglen Waith | Cyflwyno'r rhaglen waith ddrafft i'r Pwyllgor ei chymeradwyo, ei newid neu ei ddiwygio. | |
| | Diweddariadau gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ac unrhyw gyhoeddiadau. | Derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd | |
| | | | |
| 28 Tachwedd 2013 | Uned Partneriaeth | Diweddariad | Ystafell Bwyllgor 1/1pm |
| | Trosedd ac Anhrefn | Trosolwg Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. | |
| | Cymunedau'n Gyntaf Môn | Derbyn adroddiad gwaith ar Cymunedau'n Gyntaf Môn. Yn cynnwys diweddariad ar drefniadau llywodraethu a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar yr Ynys gan y Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf. | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| | Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru | Ymgynhoriad | |
| | Rhaglen Waith | Cyflwyno rhaglen waith i'r Pwyllgor ei gymeradwyo, ei newid neu ei ddiwygio. | |
| | Diweddariadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd ac unrhyw gyhoeddiadau. | Derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd | |
| | | | |
| 15 Ionawr 2014 | Ymgynghoriad â Cynigion Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb 2014-15 | Bydd y Pwyllgor yn ystyried cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Ar 15 Ionawr 2014 bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio'n unig ar y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb fel bod y Pwyllgor Gwaith yn ymwybodol o unrhyw sylwadau ynglŷn â'u cynigion ac fel bod modd i'r Pwyllgor Sgriwtini gyflwyno argymhellion ffurfiol | Ystafell Bwyllgor 1/1pm |
| | Rhaglen Waith | Cyflwyno rhaglen waith i'r Pwyllgor ei gymeradwyo, ei newid neu ei ddiwygio. | |
| | Diweddariadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd ac unrhyw gyhoeddiadau. | Derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd | |
| | | | |
| 13 Mawrth 2014 | Bwrdd Rhaglen Trawsnewid – Ynys Fenter | Mae'r Cyngor wedi sefydlu 3 Bwrdd Rhaglen i yrru newid a gwelliant gan yr awdurdod ac i oruchwylio rhaglen o waith. Mae'r Bwrdd Rhaglen ar gyfer Ynys Fenter yn disgyn o fewn sgôp y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| | | Adfywio a chyflwynir gwybodaeth ar y gwaith a wnaed gan y Bwrdd ers medi 2013. | |
| | Heddlu Gogledd Cymru | Gwybodaeth ynglyn a Chanolfan Gyfathrebiadau Heddlu Gogledd Cymru | |
| | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Gwahodd cynrychiolydd o'r bwrdd i roi trosolwg ar cynllun prentisiaeth a datblygu sgiliau | |
| | Diweddariadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd ac unrhyw gyhoeddiadau. | Derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd | |
| Eitem ychwanegol i'w chynnwys gyda hyn:<br>• Sesiwn hyfforddi ar arferion gorau ynghylch dal partneriaethau i gyfrif.<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr- i ddiweddaru aelodau ar eu rhaglen foderneiddio, materion lleol a materion iechyd cyhoeddus. | | | |